



Scroll down for English version

## Polisi Iaith Gymraeg

### 1. Datganiad Cyffredinol

Rydym ni yn Ymddiriedolaeth Natur Gwent yn parchu'r Gymraeg yn rhan hanfodol o'r dreftadaeth genedlaethol, yn iaith swyddogol yng Nghymru, ac yn rhan bwysig o'n dyfodol ni oll yma. Nid yw ein sefydliad wedi bod yn un dwyieithog yn draddodiadol, ond rydym wedi ymrwymo i newid hynny, ac yn cychwyn rhaglen i gynnwys rhagor o Gymraeg yn ein gweithgareddau. Ni ellir cyflawni newid yn y sefydliad cyfan dros nos, felly rydym yn gwerthfawrogi amynedd yr aelodau a'r ymwelwyr sy'n siarad Cymraeg. Ein nod yn yr hirdymor yw creu sefydliad sy'n gwbl ddwyieithog.

### 2. Delwedd Gyhoeddus

**Brand** – Mae ein logo swyddogol yn ddwyieithog, ac rydym yn sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio ar ein holl gynhyrchion, gan gynnwys arwyddion, ein presenoldeb ar-lein, gwisgoedd y staff a chyhoeddiadau.

**Arwyddion** – Ac eithrio ein logo, nid yw ein holl arwyddion yn ddwyieithog ar hyn o bryd. Wrth i arwyddion gael eu hamnewid neu i rai newydd gael eu comisiynu, byddwn yn sicrhau bod yr arwyddion newydd yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg wedi'i lleoli fel ei bod yn debygol o gael ei darllen gyntaf. Efallai na fydd arwyddion dros dro, neu arwyddion rhybudd i nodi perygl, yn ddwyieithog, oni bai eu bod yn cael eu harddangos am fwy na thri diwrnod gwaith.

**Deunyddiau Print** – Ar hyn o bryd, rydym yn cynhyrchu swm mawr o ddeunydd print, er enghraifft canllawiau a thafenni gwybodaeth, ac mae rhai ohonynt yn ddwyieithog. Rydym yn asesu'r cyhoeddiadau hyn er mwyn nodi blaenoriaethau, a bydd cyfieithu yn rhan annatod o'r broses gynhyrchu ar gyfer cyhoeddiadau newydd, lle bo hynny'n bosibl.

### 3. Gwefannau a Gwasanaethau Digidol

**Y Wefan** – Ar hyn o bryd, mae ein gwefan yn uniaith Saesneg ac yn cynnwys llawer iawn o wybodaeth. Nid oes gennym yr adnoddau ar hyn o bryd i sicrhau bod y wefan yn cael ei chyfieithu. Rydym yn gweithio ar wefan newydd a fydd yn cynnwys adnoddau dwyieithog.

**Y Cyfryngau Cymdeithasol** – Ar hyn o bryd, mae ein presenoldeb ar y Cyfryngau Cymdeithasol yn uniaith Saesneg yn bennaf, er ein bod yn postio yn Gymraeg ac yn Saesneg pan fydd adnoddau prosiectau yn caniatáu hynny. Wrth i'n sgiliau Cymraeg gynyddu yn fewnol, byddwn yn cyflwyno rhagor o Gymraeg.

### 4. Staff, gwirfoddolwyr, hyfforddiant a recriwtio

**Staff a gwirfoddolwyr** – Rydym yn cynnal arolwg o sgiliau i nodi pa sgiliau Cymraeg sy'n bodoli ymhlith ein cyflogwyr a'n gwirfoddolwyr ar hyn o bryd. Byddwn yn darparu bathodyn neu laniard "Iaith Gwaith" priodol ar gyfer ein holl staff a gwirfoddolwyr i ddangos eu bod yn gallu sgwrsio yn Gymraeg ar ryw lefel; bydd fersiynau electronig o'r "swigen siarad" oren hefyd yn cael eu hychwanegu at lofnod e-bost y staff, lle bo hynny'n berthnasol. Bydd rôl Cyfieithydd Cymraeg gwirfoddol newydd yn cael ei chreu er mwyn annog gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg i helpu i wneud gwaith cyfieithu yn fewnol.

**Hyfforddiant** – Yn dilyn ein harolwg o sgiliau, rydym yn rhoi rhaglen hyfforddi ar waith er mwyn galluogi'r staff i ddysgu/gwella sgiliau Cymraeg, a byddwn yn cefnogi hyn gydag ymdrechion mewnol i annog staff i ymarfer eu sgiliau yn rheolaidd. Nod hirdymor hyn yw meithrin gallu yn y sefydliad i fedru darparu gwasanaeth dwyieithog ar gyfer y cyhoedd.

**Recriwtio** – Rydym wedi ychwanegu sgiliau Cymraeg at ffurflenni ein swydd-ddisgrifiadau a ffurflenni cofrestru ein gwirfoddolwyr. Byddwn yn asesu unrhyw swyddi newydd sy'n dod ar gael, ac yn eu hysbysebu yn rhai lle mae'r Gymraeg "yn ddymunol", fel y bo'n briodol; byddwn yn egluro ym mhob hysbysiad swydd ein bod yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg ac yn Saesneg, ond y bydd cyfweiliadau yn cael eu cynnal yn Saesneg.

## 5. Gohebiaeth

**Wyneb-yn-wyneb** – Bydd aelodau o'r staff sy'n gallu siarad Cymraeg yn hawdd eu hadnabod trwy eu bathodynau neu laniardau "Iaith Gwaith" oren. Byddwn yn annog yr holl staff a gwirfoddolwyr i ddefnyddio cyfarchiad dwyieithog, ac yn eu galluogi i ddefnyddio Cymraeg sylfaenol o leiaf, gan gynnwys y gallu i ynganu enwau lleoedd a phobl.

**Dros y ffôn** – Bydd hyfforddiant yn cael ei ddarparu i alluogi'r holl staff i ateb y ffôn yn ddwyieithog. Pan fydd yna allu mewnol i fedru cynnig ymateb llawn yn Gymraeg, byddwn yn gwneud hyn yn glir.

**Trwy e-bost** – Byddwn yn sicrhau bod gan yr holl staff lofnod dwyieithog ar ddiwedd eu negeseuon e-bost, a fydd yn cynnwys y logo "Iaith Gwaith", lle bo hynny'n briodol. Pan fydd staff mewnol yn gallu cyfathrebu mewn Cymraeg ysgrifenedig, byddwn yn gwneud hyn yn glir yn y llofnod e-bost.

**Y cyfryngau a chysylltiadau cyhoeddus** – Rydym yn ymgysylltu â'r cyfryngau Cymraeg mewn modd rhagweithiol pan fo hynny'n bosibl, ac mae ein straeon wedi cael eu cynnwys mewn cyhoeddiadau Cymraeg ac mewn manau eraill. Dros amser, rydym yn gobeithio cynyddu ein presenoldeb yn y cyfryngau Cymraeg.

Bydd ein cylchgrawn *Wild About Gwent* yn cynnwys erthyglau Cymraeg yn achlysurol. Wrth i'n gallu o ran y Gymraeg gynyddu, felly hefyd y bydd nifer yr erthyglau y byddwn yn eu cynnwys y cynyddu.

**Ymholiadau ynghylch y Gymraeg** – Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch ein Polisi Iaith Gymraeg a'n gweithgareddau, cysylltwch â Robert Magee ar 01600 740600 neu [rmagee@gwentwildlife.org](mailto:rmagee@gwentwildlife.org)

Lluniwyd y polisi – 12/04/19

Adolygir y polisi – 12/04/20

# Welsh Language Policy

## 1. General Statement

We at Gwent Wildlife Trust respect the Welsh language as a vital part of our national heritage, as an official language of Wales and as an important part of all our prospects here. Ours has not historically been a bilingual organisation but we are committed to changing that and are embarking on a programme to bring more Welsh into our activities. Organisation-wide change cannot be achieved overnight, so we appreciate the patience of our Welsh-speaking members and visitors. Our long-term goal is to create a fully bilingual organisation.

## 2. Public Image

**Brand** - Our official logo is bilingual, and we make sure that this is used on all of our products, including signage, online presence, staff uniform and publications.

**Signage** - Apart from our logo, not all of our signage is currently bilingual. As signage is replaced or new signage is commissioned we will ensure that replacements are bilingual, with the Welsh language positioned so that it is likely to be read first. Temporary signs or warning signs to indicate a hazard may not be bilingual, unless they are to be displayed for more than three working days.

**Printed Materials** - We currently produce a large amount of printed material such as guides and informative leaflets, some of which are currently bilingual. We are assessing these publications to identify priorities and translation will be an integral part of the production process for new publications, where it is possible to do so.

### 3. Website and Digital Services

**Website** - Our website is presently monolingual English and contains a large amount of information. We do not currently have the resources to have this all translated. We are working on a redesigned website which will contain bilingual resources.

**Social Media** - Our social media presence is predominantly monolingual English at the moment, although where project resources allow, we are posting in Welsh as well as English. As our in-house Welsh-language skills grow we will be introducing more Welsh.

### 4. Staff, volunteers, training and recruitment

**Staff and Volunteers** - We are conducting a skills survey to identify which Welsh-language skills presently exist among our employees and volunteers. All staff and volunteers will be provided with the appropriate "Iaith Gwaith" badge or lanyard to indicate that they will be able to converse in Welsh at some level; electronic versions of the orange "speech bubble" will also be added to the email signatures of staff where relevant. A new Welsh Translator volunteer role will be created to encourage Welsh speaking volunteers to help us translate interpretation internally.

**Training** - Following on from our skills survey, we are putting in place a training programme to enable staff to acquire/improve Welsh-language skills, and this will be supported by internal efforts to encourage staff to practise their skills on a regular basis. The long-term aim of this is to build capacity within the organisation to be able to provide a bilingual service to the public.

**Recruitment** - We have added Welsh-language skills to our job description forms and our volunteers registration. We will assess any new posts that become available and advertise them as "Welsh desirable" as appropriate; we will make it clear on all job advertisements that applications in Welsh will be welcomed but that interviews will be conducted in English.

### 5. Correspondence

**Face-to-face** - All Welsh-speaking staff will be clearly identifiable through their orange "Iaith Gwaith" badges or lanyards. All staff and volunteers will be encouraged to use a bilingual greeting and will be enabled to use at least basic courtesy Welsh, including being able to pronounce names of people and places.

**Telephone** - Training will be given to enable all staff to be able to answer the telephone bilingually. Once there is in-house capacity to be able to offer a full response in Welsh this will be made clear.

**Email** - We will ensure that all staff have a bilingual signature to their email messages, including incorporation of the "Iaith Gwaith" logo where appropriate. Once there is in-house capacity for staff to correspond in written Welsh, this will be made clear in the email signature.

**Media and PR** – We proactively engage with Welsh language media where possible and our stories have featured in Welsh language publications and other outlets. In time, we hope to increase our presence in Welsh media.

Our Wild About Gwent magazine will now feature occasional Welsh language articles. As our Welsh language ability increases so will the number of Welsh language articles and features.

**Welsh Language Enquiries** – For any queries relating to our Welsh Language Policy and activities please contact Robert Magee on 01600 740600 or [rmagee@gwentwildlife.org](mailto:rmagee@gwentwildlife.org)

Policy created - 12/04/19

Policy will be revised – 12/04/20